# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR HYDREF 1af, 2024

## Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ), Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Osian Davies, Cyng. Llyr Evans, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Mark Davies, Cyng. Rob Jones, Cyng. Carol Davies

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Dim

.

**2. Datgan Diddordeb –** DIM

**3. Trafnidiaeth Gymunedol 'Green Dragon'**

**3.1 –** Ymunodd Caroline Wilson o Fysiau 'Green Dragon' gyda ni ar ddechrau'r cyfarfod. Sefydlwyd 'Green Dragon' yn Sir Benfro yn 2022 gan nad oedd trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i bobl wledig. Derbyniwyd bws am ddim gan Gyngor Sir Benfro ac i ddechrau defnyddiwid ef gan yr anabl fel modd i fynd i siopa, at y meddyg ag ati. 22 o flynyddoedd yn hwyrach ac mae'n parhau yn lwyddiant mawr. Derbyniodd y cwmni arian loteri a phrynwyd bws ail law ac mae llawer sydd a thocyn bws yn medru teithio am ddim.
Gan fod Bwcabys wedi gorffen yn ein ardal ni, mae 'Green Dragon' wedi cymryd rhai o'r teithiau. Rhaid cael cefnogaeth y bobl er mwyn iddo barhau a defnyddir ef i gael pobl wledig i drefi neu at fysiau mwy o faint er mwyn teithio ymhellach.
Os am archebu sedd, rhaid ffonio'r cwmni i holi am gymorth. Bydd rhaid i hyn wedyn gael ei basio gan y Comisiynnydd Traffig yn ogystal â'r Cyngor.
Ar hyn o bryd maent yn dod bob dydd Mercher ac yn teithio am yn ail i Emlyn ac Aberteifi. Mae ganddynt eisioes deithwyr o Frongest, Rhydlewis a Choedybryn. Wedi archebu eich sedd, rhaid i chi aros 10 munud cyn eich amser penodedig a 10 munud yn hwyrach oherwydd gall yr amser newid ychydig, yn ddibynnol ar y traffig!! Mae modd talu ar y bws os nad oes gennych docyn teithio am ddim. Os bydd digon o alw amdano yn yr ardal, byddai modd efallai cael mwy o fysiau. Mae angen mwy o yrrwyr arnynt (os oes gan unrhyw un ddiddordeb i gysylltu). Mae'r gyrrwyr yn trefnu eu teithiau yn ôl galw'r teithwyr. Rhaid archebu eich sedd 48 awr ymlaen llaw, ac ar hyn o bryd mae ganddynt 5 bws sydd allan yn ddyddiol.

.

**4. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**4.1 -** Mae pawb wedi derbyn copi o gofnodion mis Medi a chytunodd y Cyng. Ceri Jones eu bod yn gywir, ac eiliodd y Cyng.Teifi Evans.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1** –Mae Pauline wedi rhoi batris newydd yn De-fib Croeslan ond mae dal yn dangos croes goch felly mae'r Cyng.Sharon Thomas yn mynd i ail gysylltu gyda'r tim Tec. Mae un sbâr yno ar hyn o bryd.
**5.2** – Llwybrau – Hawen Hall i Felinganol. Mae y Cyng Ceri Jones a'r Cyng Teifi Evans wedi cerdded y llwybr. Mae angen arwyddion ar y llwybr – Llwybr Cyhoeddus, Caewch y gatiau ac ati. Nodwyd fod ambell fan mwdlyd ar y llwybr ac angen wellingtons. Bydd rhaid siarad gyda Osian a Jill Lowry i gael eu barn nhw a beth yw'r ffordd orau gyda sefyllfa y mwd. Nodwyd ei fod yn lwybr hyfryd gyda thair pont mewn cyflwr da.
**5.3** – Boomerang – Mae'r Gadeiryddes wedi cysylltu gyda nhw am arwydd T.Llew Jones ac yn disgwyl ymateb.
**5.4**- Derbyniwyd e-bost am y fainc sydd yn Brongest, ger yr Eglwys yn diolch amdani. Mae hefyd canmoliaeth am y fainc ger Ael y Bryn.
**5.5** – Mae'r 2 stone trap yn Brongest yn llawn ac angen eu clirio. Wedi cysylltu gyda Clic eisioes am hyn ond dim wedi cael ei wneud.

**6. Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberystwyth**

**6.1** – Angen llanw yr holiadur er mwyn lleisio barn.

**7. Cyrsiau**

**7.1** – Roedd y cwrs ar gyfer Cynghorwyr newydd yn llawn ar y 30ain o Fedi felly angen ail fwcio ar gyfer y Cyng.Osian Davies ar Hydref 22ain.
**7.2** – Côd Ymddygiad – rhai mewn cynghorau ledled Cymru yn cymryd tâl am bopeth a'r mwyafrif yn cymryd tâl blynyddol – yr holl Gynghorwyr yma yn gweithio yn wirfoddol.
e-bost personol ar gyfer Cynghorwyr – rhyddid gwybodaeth.
Yr holl Gynghorwyr yn medru cael mynedid i Un Llais Cymru.
Angen gwneud cynllun hyfforddi blynyddol.
Rhaid dod i'r cyfarfodydd gyda meddwl agored a bod yn agored. Trafodwyd nodweddion pan yn Datgan Diddordeb .

**8. Materion y Cynghorydd Sir**

**8.1** – Mae cymorth ariannol ar y wefan ar gyfer costau byw. Mae yna gefnogaeth i drigolion sydd angen ef. Mae'n werth gwneud ymchwil i weld a ydy pobl fregus yn ddilys am gymorth ychwanegol sydd ar gael iddynt.

**9. Gohebiaeth**

**9.1** - Bu'r Cyng.Sian Williams yn y cyfarfod yng Nghei Newydd yn ddiweddar. Nodwyd fod 'pest control' wedi gorffen bellach (cyfwerth ȃ 2 aelod o staff).
Eleni mae 15 miliwn o or wariant, ac yn rhagfynegi y bydd y flwyddyn nesaf yn 8 miliwn. Nododd Eifion fod Llywodraeth Cymru wedi tan-dalu Ceredigion, a bod rhai ardaloedd wedi cael eu gor-dalu.. Mae ¾ yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Priffyrdd. Ond ¼ yr arian sydd ar ôl wedyn ar gyfer yr holl bethau eraill. Efallai bydd rhaid i gynghorau lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb fel torri cloddiau ac ati – ond bydd hwn yn effeithio ar y Praesept.
**9.2** – Roedd cyfarfod Comisiynnydd yr Heddlu heno, ond yn anffodus roedd yr un noson a'n cyfarfod misol fel Cyngor Cymuned.
**9.3** – Mae cyfarfod ar 20fed o Dachwedd – Un Llais Cymru a Cymdeithas Clercod Cymru.

**9.4** –‘ Pethau Pawb’ wedi agor yn hen fanc Barclays yng Nghastell Newydd Emlyn. Mae yna Oergell gymunedol a Llyfyrgell pethau ar gael i’w benthyg. Maent wedi cael cymorth wrth Sir Gaerfyrddin ac maent yn holi am gymorth pellach i gynnal y gwasanaeth hwn.
**9.5** – Llês y Gaeaf – codi ymwybyddiaeth o gymorth sydd ar gael.
**9.6** – Hydref 16eg – Cynhadledd Un Llais Cymru.
**9.7** – Gwasanaeth Pryd ar Glyd – manylion wedi ei rannu ar Facebook y Cyngor.

**10. Cynllunio**

DIM

**10.1 –** Trafodwyd yr erthygl oedd yn y Tivy Side am y cynllunio yn Rhydlewis. Daeth cwyn o’r gymuned am y cabanau gwyliau a’r sŵn ychwanegol – fel Cyngor penderfynwyd gwrando ar gwynion y trigolion wrth ddod at ein casgliad .

**11. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu’r anfonebau ac arwyddwyd y sieciau gan y Cyng.Rob Jones a’r Cyng.Maldwyn Lewis.

Cyflog y Clerc - £258.18 001779

HMRC - £64.40 001778

**12. Materion ardal**

**12.1** – Mae angen torri o amgylch pot blodyn sydd ger Llaindelyn yn Croeslan. Mae’r Cyng.Rob Jones yn barod i wneud y gwaith, ond pwy sydd berchen y darn yna o dir?

**12.2** – Mae’r potiau blodau yn dal i edrych yn dda – maent wedi bod yn llewyrchus iawn eleni eto – gyda llai o waith dyfrio oherwydd yr Hâf gwlyb.

**12.3** – Arwyddion y pentrefi angen golchi.

**12.4** - Mae Bore Coffi McMillan yng Nghoedybryn Dydd Sadwrn, Hydref y 5ed rhwng 10-12 o’r gloch.

**12.5** – ‘Welsh in the West End’ – Mae Cyngerdd yn Neuadd Coedybryn ar Hydref 12fed.

**12.6** - Ffostrasol – Mae’r Cynghorydd Mark Davies yn mynd i ail wneud tô y safle bws.

**12.7** – Mae blwch hysbyseb newydd Ffostrasol bron yn barod i’w osod yn ei le.

**12.8** - Mae postion ffôn newydd yn mynd lan ar draws yr ardal yn barod ar gyfer y Fibre.

**13.Nadolig**

**13.1 -**Mae cwrdd carolau yng Nghoedybryn ar Rhagfyr 8fed. Bydd hyn yn rhy hwyr i ni droi’r goleuadau ymlaen ar y goeden. Trafod yn ein cyfarfod nesaf - efallai cael carolau o amgylch pob coeden yn yr ardal ar Ragfyr 1af. ( hefyd angen archebu coed )

**13.2** – Cinio Nadolig y Cynghorwyr ( i’w drafod mis nesaf )

**14.Cyfarfod Nesaf**

**14.1 –** Mae angen cysylltu gyda Neuadd Ffostasol i weld a ydy’r neuadd ar gael ar Nos Lun, Tachwedd 4ydd i ni gyfarfod .

**14.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i'w drafod, tynnodd y Gadeiryddes y cyfarfod i ben am 9:40yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

| | |
|---|---|
| ------------------------------------------------------- | ------------------------------------------------- |
| Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) | Dyddiad |